

**SIR BENFRO (A4139 PONT Y FELIN, PENFRO)**  
**HYSBYSIAD I DDARPARU NODWEDDION GOSTEGU TRAFFIG.**

---



Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig, wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 90A o Ddeddf Priffyrdd 1980, gyflwyno cyffordd wedi'i chodi ar fwrdd arafu sy'n ymgorffori'r groesfan sebra bresennol a chroesfan anffurfiol arall wedi'i chodi, fel y manylir yn Atodlen 1 i'r hysbysiad hwn.

Bydd y gyffordd wedi'i chodi yn codi'r lôn gerbydau hyd at lefel y droedffordd, gan greu arwyneb mwy gwastad ar draws y gyffordd. Bydd y groesfan sebra yn darparu lle wedi'i farcio a'i ddynodi'n glir i gerddwyr groesi, gan roi blaenoriaeth iddynt dros draffig wrth ddefnyddio'r groesfan.

Diben y cynllun yw:

- Gwella diogelwch a hygyrchedd cerddwyr
- Annog cyflymder is gan gerbydau
- Gwneud croesi'r ffordd yn haws ac yn fwy gweladwy i gerddwyr

Bwriad y cynnig yw bod o fudd i bob defnyddiwr ffordd, yn enwedig cerddwyr, pobl ag amhariad symudedd, a theuluoedd â phlant, ac mae wedi'i ddatblygu fel rhan o'r gwelliannau i'r rhwydwaith teithio llesol.

Gellir archwilio'r manylion llawn, ynghyd â map sy'n dangos y darn o ffordd yr effeithir arno, ar-lein yn [Rheoleiddio Traffig Ffyrdd - Cyngor Sir Benfro](#)

Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau mewn perthynas â'r cynigion uchod, ynghyd â'r seiliau dros wneud hynny, naill ai drwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein neu'n ysgrifenedig i'r islofnodedig erbyn 18 Chwefror 2026. Dyfynnwch: PONT Y FELIN

Dyddiedig yr 28ain diwrnod hwn o Ionawr 2026

Sarah Edwards

Pennaeth Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

Cyngor Sir Penfro

## ATODLEN 1

<b>Lleoliad:</b>	<b>Math</b>
Ar bwynt tua 13 metr i'r de o'r dafarn gyda'r enw'r Watermans Arms ac yn ymestyn am 6 metr ymhellach i'r de.	Bwrdd croesi wedi'i godi 65mm o uchder
O linell ganol y ffordd fynediad i faes parcio Cei'r De, gan ymestyn tua 14 metr i'r gogledd, 13 metr i'r de, ac 11 metr i'r gorllewin i mewn i'r maes parcio.	Bwrdd croesi wedi'i godi 65mm o uchder sy'n ymgorffori'r groesfan sebra bresennol ac yn ymestyn ar draws y gyffordd â maes parcio Cei'r De.

General arrangement - Scale 1:500





**Ardal tawelu traffig**  
**Traffic calmed area**

**Diwedd yr ardal tawelu traffig**  
**End of traffic calmed area**


Signs to be installed on both end of the Mill Bridge (Signs not to scale)

Location Plan - Scale 1:2000



- Tarmacked footway construction
- Raised table construction
- Paved footway construction
- Buff coloured blister tactile paved area
- Red coloured blister tactile paved area
- Natural coloured corduroy tactile paved area

**EXTRACT FROM ORDNANCE SURVEY SN1301**



© Hawflraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023344. Rhoddir trwydded ddrymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion afnasochnol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.  
© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100023344. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

REV.	DESCRIPTION	BY	DATE
A	Raised table dimensions added	BW	01/2026



**PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL**  
**CYNGOR SIR PENFRO**

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, HWLFFORDD, Sir Benfro. SA61 1TP  
Ffon: 01437 764551  
Pembrokeshire County Council, County Hall, HAVERFORDWEST, Pembrokeshire. SA61 1TP  
Tel: 01437 764551  
www.pembrokeshire.gov.uk

DRAWING TITLE  
**GENERAL ARRANGEMENT**

PROJECT TITLE  
**ATC PEMBROKE MILL BRIDGE**

DRAWN BY	BW	01/26	SCALE
CHECKED			AS SHOWN @ A3

CAD REF.	DRAWING No.
	CA18072 D101-A3
PROJECT PHASE	DESIGN
REV.	